# Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 20FED MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Sera Jane Whitley**

**serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 12 Mawrth 2026)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

**Aelodau Cyngor**

| | |
|---|---|
| Cyng. Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |

**Aelod Eryri**

| | |
|---|---|
| Cyng. Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol**

| | |
|---|---|
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Alwyn Jones | Cyngor Wrecsam |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Swyddogion Statudol**

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor |
| Dewi Aeron Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Mark Watkins | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** 5 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23 o Ionawr, 2026, 6 o Chwefror, 2026, a 13 o Chwefror, 2026 fel rhai cywir.

**5. PENODIAD CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CBC GOGLEDD CYMRU**

Alwen Williams, Prif Weithredwr i cadarnhau'r apwyntiad..

**6. IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - CYLCH GORCHWYL** 17 - 22

Mark Watkins, Swyddog Monitro (dros dro) i gyflwyno'r adroddiad.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL 2024-25** 23 - 29

Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.

**8. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA** 30 - 35

Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) a Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen i gyflwyno'r adroddiad.

**9. CRONFA TWF LLEOL YNG NGHYMRU - CYNLLUNIO AR GYFER BLWYDDYN DROSIANNOL (2026/27) GOGLEDD CYMRU** 36 - 40

Dylan Griffiths, Rheolwr, Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru (Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu Economaidd) Cyngor Gwynedd i gyflwyno'r adroddiad.

## 10. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2026/27 41 - 49

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi i gyflwyno'r adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**23/01/2026**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC),Hedd Vaughan Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid – Cyngor Gwynedd) Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Iain Taylor (AMION Consulting), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Cyngor Gwynedd)

**Eraill a wahoddwyd:** David Bithell (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, Cadeirydd Is bwyllgor Trafnidiaeth Strategol CBC y Gogledd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) a Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro CBC).

Cyn cychwyn ar y cyfarfod croesawyd Helen White, Prif Weithredwr newydd Cyngor Sir Ddinbych i'w chyfarfod cyntaf.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Bu i'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid Statudol nodi datganiad o fuddiant os y drafodaeth yn mynd i drafod eu swyddi yn eitem 5, ac y buasent yn gadael y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Amlygwyd fod un aelod wedi nodi ei bod yn erbyn cau allan y wasg a'r cyhoedd yn y cyfarfod ar y 7fed Tachwedd, gofynnwyd i'r cofnodion gael ei addasu i amlygu hyn. Derbyniwyd hyn a chofnodion cyfarfod 28 Tachwedd.

**5. CYLLIDEB 2026/27, ARDOLL AC AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU PARTNERIAID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd)

**PENDERFYNIAD**

**Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**

- Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.
- Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol fel y nodir yn Atodiad 1.

**Cynllun Twf**

- Cymeradwywyd y gyllideb refeniw'r Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.
- Cymeradwywyd cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.
- Cymeradwywyd y gyllideb gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 3.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu ei bod yn ofyniad statudol i'r CBC gymeradwyo ei gyllideb, a dyraniad yr ardoll i'r Cynghorau ac Awdurdod y Parc Cenhedlaeth erbyn 31 Ionawr. Nodwyd fod cyfanswm y gyllideb gwariant ar gyfer 2026/26 yn £2.16m ac amlygwyd y modd mae'n cael ei ariannu.

Esboniwyd fod yr ardoll, sy'n cael ei rannu i'r awdurdodau cyfansoddol ar sail poblogaeth, wedi cynyddu £112,700 ar gyfer 2026/27 a hynny oherwydd chwyddiant o 3.5% a'r costau ychwanegol wrth gynyddu capasiti'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. Nodwyd er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu ymhellach ar draws y CBC fod adolygiad diweddaraf yn dangos yr angen am Swyddog Monitro llawn amser a Swyddog Adran 151 am 3 diwrnod yr wythnos wrth symud ymlaen.

Amlygwyd ar ôl defnyddio'r cyfraniad o bron i £625mil o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2026/27 y bydd tua £800mil o falans yn parhau wrth gefn.

Wrth edrych ar y Cynllun Twf, nodwyd fod cyllideb gwariant ar gyfer 2026/27 yn £2.95m, gyda £470mil yn cael ei ariannu gan gyfraniadau'r partneriaid, £240mil gan gyfraniadau atodol awdurdodau lleol, £154mil gan gyfraniadau llog partneriaid, £660mil o'r grant Cynllun Twf sydd wedi ei glustnodi ar gyfer yr elfen refeniw, £435mil o'r grant Cynllun Twf sydd wedi ei glustnodi o'r prosiectau a £987mil o'r gronfa adnoddau. Eglurwyd nad oes cynnydd yng nghyfaniadau partneriaid i'r Cynllun Twf o ganlyniad ostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn gwrthbwyso'r addasiad alldro ar gyfer 2025/26 a'r amcan chwyddiant cyflog ar gyfer 2026/27.

Manylwyd fod newidiadau mewn prosiectau yn y proffil cyfalaf wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn yr amcan gost o fenthyca o'i gymharu â'r cyfrifiad a wnaethpwyd ar gyfer cyllideb 2025/26. Ategwyd fod rhai partneriaid hefyd yn arwain eu prosiectau, ac felly bod cost benthyca wedi'i ychwanegu at eu cyfraniadau llog.

Nodwyd o ran cyllideb cyfalaf y Cynllun Twf fod proffil gwariant diweddaraf wedi ei nodi yn rhan o'r atodiadau, a'i fod yn seiliedig ar amserlen y projectau diweddaraf. Ychwanegwyd ei fod yn cael ei adolygu wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.

Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi ei fod yn hunan esboniadwy. Holwyd os yw defnyddio arian cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy, gan ei bod yn mynd o flwyddyn i flwyddyn. Nodwyd yr angen i ystyried ymhellach wrth wneud strategaeth gyllidol tymor hir. Mynegwyd fod

angen eu defnyddio gan ei fod yn lleihau'r angen i gynyddu'r ardoll ar Awdurdodau Lleol a'r Parc.

## 6. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD Rhagfyr 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd)

**PENDERFYNWYD:**

Nodi a derbyn Adolygiad diwedd Rhagfyr 2025 ar gyfer :-

- Y Cydbwyllgor Corfforedig (Atodiad 1).
- Yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (y Cynllun Twf), gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn (Atodiad 2 a 3).
- Cynllun Cyfalaf y Cynllun Twf (Atodiad 4)
- Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (Atodiad 5).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi amcan o sefyllfa ariannol y CBC. Mynegwyd eu bod yn amcanu tanwariant o £959mil ar gyfer eleni. Nodwyd fod hyn yn gynnydd o'r £411mil a ragwelwyd yn adolygiad Gorffennaf. Eglurwyd fod hyn oherwydd llwyddiant y CBC i sicrhau cyllideb grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a gweithredu'r Cydbwyllgor.

Tynnwyd sylw at y Cynllun Twf gan nodi eu bod yn amcanu tanwariant o £618mil, sydd eto yn gynnydd o £281mil a ragwelwyd ym mis Gorffennaf. Mynegwyd fod hyn oherwydd tanwariant pellach mewn gwariant gweithwyr a rolau llywodraethol ychwanegol, gwasanaethau cefnogol y corff ateb a'r penawdau prosiectau.

Nodwyd fod proffil cyfalaf diwygiedig ar gyfer y Cynllun TWF yn dangos gostyngiad net o £7.46m yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2025/26. Ategwyd bod llithriad ar rai prosiectau, er bod rhai yn symud ymlaen ac o ganlyniad wedi lleihau'r tanwariant.

Mynegwyd o ystyried cyllideb y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y bydd y sefyllfa yn niwtral, ac wedi ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru ynghyd â chronfa wrth gefn.

Diolchwyd am yr adroddiad a tynnwyd sylw at y tanwariant gan nodi eu bod yn deall ei fod o ganlyniad i ddiffyg penodi i swyddi. Gofynnwyd a oes modd i leihau cyfraniad Awdurdodau Lleol gan fod cymaint o danwariant yn cael ei ragweld. Ymatebwyd gan nodi fod y cyfraniadau wedi ei nodi yng nghytundeb ariannu ag arwyddwyd gan yr holl Awdurdodau. Mynegwyd fod y gorwariant yn cael ei rhoi mewn cronfeydd penodol ac ar gael ar gyfer ariannu diffygion megis yng nghyllideb rhaglen Cynllunio Strategol. Eglurwyd fod yr arian wrth gefn wedi ei benderfynu gan yr aelodau'r llynedd ac y bydd yn cael ei drafod eto yn yr adroddiad diwedd blwyddyn er mwyn cymeradwyo'r defnydd o'r tanwariant.

Amlygwyd pryder am y tanwariant yn wyneb yr heriau ariannol sydd yn wynebu Llywodraeth Leol a chyllidebau mor dynn â gwasanaethau rheng flaen ar draws y rhanbarth yn gorwario.

Eglurwyd fod cyllidebau yn y Cynllun Datblygu Strategol yn amlygu defnydd o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer sicrhau cyllideb lawn ar gyfer 5 mlynedd y Cynllun. Amlygwyd y bydd gwybodaeth bellach ar y mater hwn i'w weld yn eitem 9 o'r agenda heddiw.

Nodwyd dealltwriaeth o’r rhesymeg tu ôl i roi'r arian mewn cronfeydd wrth gefn, ond fod angen sicrhau ddim yn pentyrru arian yn ddiangen, a drwy osod cyllideb yn flynyddol heb gynllun tymor canolig neu dymor hir mae pryder for cynydd aruthrol yn mynd i fod yn ardoll o un flwydd i’r llall. Ymatebwyd drwy nodi fod y CBC yn gorff newydd ac o ganlyniad fod swyddi heb eu llenwi. Pwysleisiwyd mai rhagolygon yw’r adroddiad hwn ac nad oes penderfyniad yn cael ei wneud ar y tanwariant heddiw bydd yn hyn yn cael ei benderfynu yn yr adroddiad diwedd y flwyddyn. Ategwyd y bydd yr arian yn cael ei roi i ddefnydd penodol dros y blynyddoedd nesaf wrth i gostau’r CBC gynyddu. Eglurwyd y bydd yr arian wrth gefn gobeithio yn cynorthwyo i gadw’r ardoll mor isel â phosib.

Gofynnwyd am adroddiad llawn gwybodaeth ar gyfer y penderfyniad diwedd y Flwyddyn, gan fod cymaint o bryderon am y tanwariant eleni. Pwysleisiwyd yn ogystal nad oes sicrwydd o’r sefyllfa yn dilyn etholiadau Llywodraeth Cymru ym mis Mai.

## 7. IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL – CYLCH GORCHWYL A HUNANASESIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd yr Is-Fwrdd Trafnidiaeth Strategol, y Cynghorydd David Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r newidiadau a ganlyn i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol:

- Bod y gofyn i gynhyrchu adroddiad cynnydd chwarterol yn cael ei ddisodli gan adroddiadau bob chwe mis.
- Bod gan yr is-bwyllgor y pŵer dirprwyedig i ystyried a gwneud argymhellion i'r CBC ar gyllid trafnidiaeth ranbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau.

Nodi'r adborth o holiadur hunanasesu'r is-bwyllgor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi diolch am y cyfle i’w gyflwyno fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor. Nodwyd ei fod yn adrodd yn ôl ar 2 adroddiad sydd wedi ei drafod ar y 15fed o Ragfyr sef addasiadau i’r Cylch Gorchwyl ac adrodd yn ôl ar ymatebion positif a dderbyniwyd o holiadur hunanasesu’r Is-bwyllgor.

Amlygwyd fod y penderfyniad yn gofyn am bŵer dirprwyedig i ystyried a gwneud argymhellion i'r CBC ar gyllid trafnidiaeth ranbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau wedi ei ddatblygu'n ddiweddar wrth weithredu’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Eglurwyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhannu canllawiau ar ddatblygu'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol (RTF) sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen o gynlluniau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Ranbarthol.

Diolchwyd am yr adroddiad ac amlygwyd mai dim ond 5 aelod oedd wedi ymateb i’r holiadur hunanasesu. Holwyd o ran y 6ed aelod os oed yn aelod newydd, ac wedi cael cyfle i ymateb, ac os oedd y gefnogaeth yna i aelodau newydd i fod yn ymwybodol o’i rôl a chyfrifoldebau. Ymatebwyd drwy nodi fod yr aelod yn un newydd, ond eu bod fel aelodau yn teimlo fod

cefnogaeth ond fod gwaith yn parhau i ddatblygu i sicrhau fod aelodau yn derbyn cefnogaeth am eu rôl a cyfrifoldebau.

Mynegwyd fod pryderon, fel yn y Pwyllgor hwn o'r gwrthdaro sydd rhwng y gwaith ar y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau a'u rolau yn lleol fel Aelodau Cabinet. Ond amlygwyd fod pwyntiau dilys wedi ei godi yn yr hunanasesiad a holwyd oes yw'n cael ei adrodd ymhellach. Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn ddogfen fewnol i sicrhau fod y gefnogaeth a'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei roi i'r aelodau. Ond wrth i'r gwaith ddatblygu fod angen edrych os oes modd rhannu'r ymarfer da sydd yn cael ei amlygu â Llywodraeth Cymru.

**8. DIWEDDARIAD Y GRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

**PENDERFYNWYD:**

Nodi a derbyn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyd-bwyllgor yn ôl ym mis Tachwedd wedi cymeradwyo Rhaglen Cynlluniau drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cynlluniau oedd y rhain a oedd wedi ei adnabod a'i blaenoriaethu gan Awdurdodau'r rhanbarth.

Yn dilyn cyflwyno'r Rhaglen Gynlluniau i'r Llywodraeth mynegwyd fod sylwadau wedi ei dderbyn a sgôr lliw wedi ei roi i bob un. Cafodd 37 sgôr gwyrdd, 43 sgôr ambr a 3 sgôr coch. Eglurwyd fod gwaith pellach wedi ei wneud ar gynlluniau er mwyn ymateb i'r pryderon oedd wedi ei amlygu gan Lywodraeth Cymru, a byddant yn cael eu cyflwyno eto i'r Llywodraeth cyn diwedd y mis.

Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd a oes amserlen wedi ei bennu gan y Llywodraeth i dderbyn ymateb. Ymatebwyd drwy nodi nad oes ond y bydd cyn y cyfnod cyn-etholiadaol a bydd llythyrau yn cael ei gyrru gobeithio i'r Awdurdodau ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth yn yr adroddiad i'r dyfodol gan ei fod yn adroddiad rhy lefel uchel a bod angen mwy o ddehongliad i'r aelodau ac i'r cyhoedd.

**9. CYFLWYNO CYTUNDEB CYFLAWNI'R CYNLLUN STRATEGOL YN FFURFIOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD:**

Cytunwyd i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr is-bwyllgor Cynllunio Strategol i wneud unrhyw fân

ddiwygiadau golygyddol neu fformatio i'r Cytundeb Cyflawni i'w baratoi i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyd-bwyllgor yn ôl ym mis Medi wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Strategol yn barod i'r gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar wneud penderfyniad ynghylch y cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Ers y cyfarfod hwnnw, mynegwyd fod y broses o osod cyllideb yn mynd rhagddi a bod cyllideb wedi ei osod ar gyfer rhaglen 1 o'r rhaglen cyflawni, a hynny heb roi effaith ar yr ardoll. Pwysleisiwyd fod cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i'r Llywodraeth yn ymrwymo'r CBC i gwblhau'r Cynllun o fewn 5 mlynedd.

Amcangyfrifwyd bod y gost o gynhyrchu'r SDP yn £3.276m dros y broses bum mlynedd, neu £655,272 y flwyddyn ar gyfartaledd i gychwyn. Ond ar ôl ystyried y gorwariant refeniw cynigwyd cyllideb o £597,650. Eglurwyd fod sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r gyllideb o ran yr effaith gyfyngedig iawn ar ardoll yr Awdurdodau Lleol yn gyflawniad sylweddol, gan roi'r sicrwydd roedd yr Aelodau yn chwilio amdano, a'r potensial i ailadrodd hyn fel rhan o'r ymarfer gosod cyllideb ar gyfer 2027/28, o leiaf. Er nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chytuno eto ar gyfer y CBC, ystyrir mai'r sefyllfa hon yw'r gorau y gellir ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf gan roi'r sicrwydd sydd ei angen i ymrwymo i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd fod y gofyniad hwn yn un statudol, ac felly ei bod yn orfodol i'w ariannu. Amlygwyd fod ail edrych ar y gyllideb yn dangos eu bod yn ymrwymo i fod mor effeithlon â phosib wrth symud ymlaen. Ategwyd y bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref.

**10. CRONFA PARTNERIAETH ARLOESI GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Iain Taylor, AMION Consulting.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad 1.
Cyflwyno Mynegiant o Barodrwydd ar gyfer cynnig Cronfa Partneriaeth Arloesi Lleol Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi haf diwethaf fod y Cydbwyllgor wedi croesawu cynigion ar gyfer Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru. Nodwyd fod y drafodaeth gychwynnol wedi gyda'r Gweithgor y Bwrdd Arloesi wedi ystyried sut gallai bwrdd â ffocws ddod ac arbenigedd ac arweiniad ar themâu arloesi. Ers hynny mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i weinyddu arian ar gyfer rhaglen o Bartneriaethau Arloesi Lleol ledled y DU.

Mynegwyd felly fod yr adroddiad hwn yn dod a'r ddau gynllun hwn at ei gilydd er mwyn gallu cyflwyno Mynegiant o Barodrwydd a gyda'r gobaith i gynnig ddod yn ôl i'r CBC i wahodd y rhanbarth i baratoi cynnig i gefnogi cynlluniau arloesol dros y Gogledd dros gyfnod o 5

mlynedd. Eglurwyd ei fod yn arwyddocaol i’r Gogledd i ddatblygu strwythur i edrych ar arloesedd a'i wthio a’i yrru ar draws y rhanbarth.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00 a daeth i ben am 12:30.

________________________________

(Cadeirydd)

**CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 06/02/26**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jason Mclellan (Cyngor Sir Ddinbych) (Is-gadeirydd).

Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych) a Richard Weigh (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Mark Watkins (Pennaeth Cyfreithiol Dros Dro), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).
- Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn).
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), gyda Richard Weigh yn dirprwyo.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol ar gyfer Eitem 4 gan y Pennaeth Cyfreithiol Dros Dro. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Cadarnhawyd nad oedd yn briodol i'r Swyddog Monitro ddatgan buddiant yn ystod y cyfarfod hwn oherwydd bod ei fod wedi camu i lawr o'r swydd yn ffurfiol cyn y cyfarfod hwn. Eglurwyd y byddai ar gael i ddarparu cyngor yn ystod y cyfarfod petai unrhyw fater cyfreithiol yn codi fel rhan o'r drafodaeth.

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro am ei waith manwl a theg. Mynegwyd diolchiadau am fod yn gytbwys, diduedd a chyson a nodwyd bod ei gyfraniad wedi bod yn werthfawr iawn i ddatblygiad Cyd-bwyllgor Corfforedig y gogledd. Cydnabuwyd bod rôl y Swyddog Monitro yn gallu bod yn un heriol, gan ddiolch iddo am fod yn gadarn yn ei safiad a gwybodaeth gyfreithiol ar bob achlysur.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. PENODI SWYDDOG MONITRO DROS DRO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo penodiad Mark Watkins fel Swyddog Monitro dros dro.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod dyletswydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i benodi Swyddog Monitro yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 7 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2)(Cymru)2021).

Eglurwyd bod y rôl wedi cael ei gyflawni gan Iwan Evans yn rhan amser ers 2019, gan ei fod hefyd yn Swyddog Monitro a Phennaeth Cyfreithiol yng Nghyngor Gwynedd. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad yw'r trefniant hyn yn gynaliadwy mwyach gan fod cyfrifoldebau a gweithreded Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi tyfu'n sylweddol gan arwain at gynnydd yn y gefnogaeth a chyngor cyfreithiol sydd ei angen.

Tynnwyd sylw at risgiau posib a all godi os fyddai'r trefniant presennol yn cael ei addasu megis; diffyg capasiti cyffredinol, y posibilrwydd y byddai buddiannau yn gwrthdaro yn ogystal â risgiau wrth sicrhau bod yn annibynnol, atebolrwydd gwytnwch a didueddrwydd.

Atgoffwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi sicrhau cyllideb ar gyfer y rôl hon wrth gytuno ar gyllideb 2026/27 yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026. Cynigwyd bod unigolyn profiadol yn cyflawni'r swydd dros-dro, er mwyn sicrhau parhad gweithgareddau ac i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli, hyd nes mae penodiad parhaol yn cael ei wneud. Cadarnhawyd bod Mark Watkins wedi cael ei adnabod fel unigolyn priodol ar gyfer y rôl dros-dro gan ei bod wedi cyflawni'r un rôl ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd. Nodwyd ei fod wedi bod wedi ei gontractio gyda Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ers 2 Chwefror 2026 fel locwm er mwyn trosglwyddiad llyfn o gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol.

Mynegwyd diolchiadau diffuant i'r Swyddog Monitro am ei gefnogaeth barhaus a chefnogaeth ddiflino ym mhob agwedd o waith y Cyd-bwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Ategwyd diolchiadau i'r Swyddog Monitro am ei holl gefnogaeth.

Nodwyd bod yr adroddiad yn gofyn i'r aelodau ystyried penodi Mark Watkins fel Swyddog Monitro, ac nad yw'n cadarnhau ei fod yn benodiad dros dro. Mewn ymateb, pwysleisiwyd mai penodiad dros-dro a ystyrir yn ystor y drafodaeth a'r cyfarfod hwn, gyda penodiad parhaol i'w wneud yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at y swydd ddisgrifiad, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal trafodaeth ar sgiliau ieithyddol pan fydd penodiad parhaol yn cael ei wneud yn y dyfodol. Cytunwyd bod y drafodaeth hon yn un pwysig gan sicrhau y byddai'n ystyriaeth wrth benodi Swyddog Monitro ar sail barhaol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bydd llunio'r swydd ddisgrifiad yn un o gyfrifoldebau'r Swyddog Monitro dros dro, gan bwysleisio bydd yr elfen ieithyddol yn rhan bwysig ohono. Eglurwyd hefyd y bwriedir penodi Swyddog Monitro parhaol yn gymharol gyflym, gan nodi bod y penodiad dros dro hwn yn rhoi'r rhyddid i sicrhau amser fel bod y penodiad cywir yn cael ei wneud er lles Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:45 a daeth i ben am 12:00.

(Cadeirydd)

**CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 13/02/26**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jason Mclellan (Cyngor Sir Ddinbych) (Is-gadeirydd).

Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Jenny Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) Dylan Williams (Cyngor Ynys Mon), Jonathan Crwley (Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau), Mark Watkins (Swyddog Monitro a Llywodraethu), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth - Cyngor Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Neal Cockerton (Cyngor Sir Fflint) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**5. PENODI CYFARWYDDWR PORTFFOLIO – TYNNU RHESTR FER**

Adroddodd Alwen Williams (Prif Weithredwr) bod 16 cais wedi dod i lawr. Mynegwyd fod 3 o'r ceisiadau wedi cyrraedd gofynion y swydd.

Cynigwyd ac eiliwyd rhoi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD RHOI TRI YMGEISYDD AR RESTR FER CYFWELIADAU SWYDD Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO.**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygwyd y byddai'r ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu yn cael ei chynnal. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn yr ymarferion a'r ganolfan asesu yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Cydbwyllgor Corfforedig ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:45am

______________________________
(Cadeirydd)

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Cylch Gorchwyl |
| AWDUR: | Mark Watkins, Swyddog Monitro (dros dro) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y sefyllfa cworwm a gallu'r is-bwyllgor i drafod ei swyddogaeth ddeddfwriaethol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r newidiadau a ganlyn i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Mai'r cworwm ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd 7 aelod gydag o leiaf un Aelod Lleyg yn bresennol.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Cynhaliwyd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Rhagfyr 2025, a chyfarfu eto ar 13 Ionawr 2026. Ar y ddau achlysur, treuliwyd cryn dipyn o amser swyddogion yn sicrhau presenoldeb i fodloni'r gofynion cworwm, a chododd problemau gyda chworwm yn y ddau gyfarfod.

3.2 Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn nodi na fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn perthynas â mater y mae angen penderfyniad arno oni bai bod dim llai na 70% o'r sawl sydd â hawl i bleidleisio yn bresennol. Aelodaeth yr Is-bwyllgor yw 9 aelod – 6 Aelod o'r Cyngor a 3 Aelod lleyg, y mae gan bob un ohonynt yr hawl i bleidleisio. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu mai "y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un aelod yn bresennol o bob cyngor Cyfansoddol ac o leiaf un Aelod Lleyg".

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg ac o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorau cyfansoddol. Mae pob Cyngor yn cael ei gynrychioli drwy Aelod dynodedig o'u pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. Mae Dirprwy Aelodau'r Cyngor hefyd wedi cael eu cyfethol ar y sail eu bod yn mynychu os nad yw'r Aelod dynodedig ar gael, gan ddod â chyfanswm y pwll o aelodaeth y Cyngor i ddeuddeg cynrychiolydd. Ar hyn o bryd mae'r tri aelod lleyg cyfetholedig yn dod o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio'r Cynghorau cyfansoddol.

4.2 Y safbwynt deddfwriaethol yw, er mwyn i fusnes gael ei drafod, bod rhaid i 70% o gyfanswm y naw aelod penodedig (sef yr aelodaeth graidd – er mwyn eglurder, nid yw hyn yn cynnwys aelodau dirprwyol) fod yn bresennol. Fodd bynnag, mae'r Cylch Gorchwyl yn amodi

presenoldeb i sicrhau presenoldeb gan gynrychiolydd o bob Cyngor. Y bwriad y tu ôl i hyn oedd sicrhau cydraddoldeb a thegwch ar draws y rhanbarth. Y sefyllfa hyd yma fodd bynnag yw ei bod wedi bod yn anodd sicrhau cworwm. Mae swyddogion wedi ystyried nifer o opsiynau i ddod o hyd i ddatrysiad i sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ac wedi dod i'r casgliad mai dileu'r gofyn am bresenoldeb gan gynrychiolydd o bob Awdurdod sy'n rhoi'r ateb ymarferol gorau.

4.3 Rhaid i'r cworwm aros yn 7 i fodloni'r gofyniad deddfwriaethol ond dylai dileu'r gofyniad i aelodau etholedig o bob Cyngor cyfansoddol fod yn bresennol ei gwneud yn haws cyflawni cworwm. Bydd hyn yn darparu ateb i'r broblem cworwm bresennol, gan sicrhau y gellir trafod busnes yr Is-bwyllgor.

4.4 Ni ystyrir y dylid newid unrhyw ymagwedd at nifer yr aelodau lleyg i gynnal y gynrychiolaeth o draean gan aelodau unigol. Nid yw Aelodau Lleyg yn cynrychioli unrhyw gorff ac fe'u henwebir ar sail unigol mewn perthynas â'u set sgiliau.

4.5 Cynghorir aelodau drwy'r Flaenraglen Waith o ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ac anfonir gwahoddiadau dyddiadur ymhell ymlaen llaw. Mae'n ddyletswydd ar bob Aelod i fynychu cyfarfodydd ac, os nad ydynt yn gallu mynychu, rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Democratiaeth cyn gynted â phosibl. Ar gyfer Aelodau Cyngor nad ydynt yn gallu mynychu, dylent drefnu i'w dirprwy fynychu a rhoi gwybod i'r swyddogion perthnasol.

**4.6 Opsiynau a ystyriwyd**

Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r anawsterau gyda sicrhau cworwm, mae swyddogion wedi ystyried yr opsiynau canlynol:

a) Dim newid i'r Cylch Gorchwyl a pharhau i geisio sicrhau cworwm trwy gynllunio dyddiaduron gwell, ymgysylltu a defnyddio dirprwyon (lle bo modd).

b) Lleihau nifer y cworwm islaw saith. Ni argymhellir hyn gan fod y safbwynt deddfwriaethol yn ei gwneud yn ofynnol bod dim llai na 70% o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio yn bresennol, ac yn seiliedig ar aelodaeth bleidleisio graidd o naw, mae hyn yn cyfateb i saith.

c) Cadw cworwm ar saith ond dileu'r gofyniad ychwanegol am bresenoldeb gan gynrychiolydd o bob cyngor cyfansoddol (argymhellir). Mae hyn yn cadw cydymffurfiaeth â'r trothwy statudol wrth ddileu'r elfen a osodir yn lleol sydd wedi bod yn anodd ei bodloni yn ymarferol.

d) Ailstrwythuro aelodaeth y pwyllgor (e.e. newid maint yr aelodaeth bleidleisio graidd) i newid effaith fathemategol y rheol 70%. Mae hwn yn newid mwy sylfaenol, a fyddai'n cymryd mwy o amser i'w weithredu.

**4.7 Manteision ac anfanteision yr opsiwn a argymhellir**

Manteision

4.7.1 Mae'r cynnig yn newid dargededig sy'n dileu gofyniad cynrychioliadol ychwanegol nad yw'n angenrheidiol i gyrraedd y trothwy presenoldeb statudol o 70%.

4.7.2 Mae'n gwella gallu'r Is-bwyllgor i gyfarfod a thrafod busnes, gan gefnogi cyflawni ei swyddogaethau llywodraethu ac archwilio statudol.

4.7.3 Mae'n cadw'r diogelwch presennol bod yn rhaid i o leiaf un Aelod Lleyg fod yn bresennol er mwyn i gyfarfodydd fod yn gworwm.

4.7.4 Mae'n lleihau'r risg o gyfarfodydd anghworwm dro ar ôl tro a'r effaith gysylltiedig ar amser swyddogion, cost ac enw da.

Anfanteision / cyfaddawdau

4.7.5 Mae dileu'r gofyniad i gynrychiolydd o bob cyngor cyfansoddol fod yn bresennol yn golygu, ar adegau, y gellid trafod busnes mewn cyfarfod lle nad yw pob cyngor cyfansoddol yn cael ei gynrychioli.

4.7.6 Mae risg canfyddiad bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb gynrychiolaeth ddaearyddol lawn, er gwaethaf y ffaith bod gan bob aelod yr un mynediad at bapurau a'r gallu i fynychu a phleidleisio pan fyddant yn bresennol.

**4.8 Risgiau allweddol a lliniariadau**

4.8.1 Risg: Llai o gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd unigol.

Lliniaru: Bydd dyddiadau cyfarfodydd yn parhau i gael eu hamserlennu a'u dosbarthu ymhell ymlaen llaw a gwahoddiadau i'r dyddiadur, a bydd presenoldeb yn cael ei reoli'n weithredol trwy ymgysylltu ag aelodau a defnyddio dirprwyon yn amserol lle na all aelod dynodedig o'r cyngor fynychu.

4.8.2 Risg: Risg i enw da os ystyrir eitemau arwyddocaol pan nad oes cynrychiolaeth gan gyngor.

Lliniaru: Bydd y Cadeirydd yn cael ei gefnogi i ymarfer disgresiwn priodol ar gynllunio agenda a (lle bo'n briodol) gohirio eitemau effaith uchel i gyfarfodydd lle mae presenoldeb yn gryfach, heb ailgyflwyno amod cworwm cynrychioliadol anhyblyg.

**4.9 Monitro ac adolygu**

4.9.1 Os bydd y CBC yn cymeradwyo'r geiriad cworwm diwygiedig, bydd swyddogion yn monitro presenoldeb a chworwm dros weddill 2026/27 a byddant yn adrodd yn ôl i'r CBC os bydd angen addasiadau pellach, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n codi o swyddi gwag parhaus neu ddiffyg presenoldeb parhaus.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaethol yn hanfodol i system rheolaeth fewnol ac atebolrwydd cyhoeddus y CBC. Mae'r analluedro ar ôl tro i gyflawni cworwm yn gwanhau trefniadau sicrwydd y CBC yn sylweddol. Mae'r diwygiad arfaethedig yn dargededig ac yn gymesur, gan gadw'r trothwy presenoldeb statudol wrth ddileu gofyniad ychwanegol sydd wedi profi i fod yn rhwystr i'r Is-bwyllgor gynnal busnes. Dylid datblygu hyn ochr yn ochr â gwaith parhaus i wella ymgysylltiad, cynllunio ymlaen llaw, hyfforddiant/ymsefydlu a recriwtio amserol i gynnal y cyfansoddiad aelodau lleyg gofynnol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae angen mynd i'r afael â'r mater dan sylw mewn perthynas â chwaredd fel y gall yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio weithredu ei rôl hanfodol o fewn llywodraethiant y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn llawn.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir."

**CYLCH GORCHWYL [sy'n dangos diwygiadau gofynnol fel newidiadau trac]**

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'n ofynnol i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16(1) Rheoliadau Sefydlu'r CBC 2021.
(*Nodir bod hwn yn cael ei alw'n 'bwyllgor llywodraethu ac archwilio' mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, ond gan fod CBC y Gogledd ei hun yn bwyllgor, mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â CBCau*.)

**Swyddogaethau**

Mae'r is-bwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd. Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'u nodi yn Rheoliadau Sefydlu'r CBC sy'n nodi bod rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio:

a) adolygu a chraffu materion ariannol y CBC;
b) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC
c) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC;
d) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
da) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
db) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,".
e) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC
f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC.
g) ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill fel y manyla'r CBC

Bydd yr is-bwyllgor yn ymgymryd â swyddogaethau pellach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Bennod 1 o Ran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:-

(i) hyrwyddo archwiliad mewnol, sefydlu amserlen i gynnal adolygiad o reolaeth, datblygu diwylliant gwrth-dwyll ac adolygu gweithrediadau ariannol;

(ii) ystyried arsylwadau a phryderon ar wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y CBC, y Archwilydd Cyffredinol Cymru a monitro'r ymateb a'r camau gweithredu ar yr argymhellion a'r canfyddiadau.

**Aelodaeth**

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg ac o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorau cyfansoddol. Bydd y penodiad(au) yn cael eu gwneud gan CBC y Gogledd.

Rhaid i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg.
Dylai'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu gan y CBC sy'n cynnwys aelodau lleyg i'w tynnu o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio cynghorau cyfansoddol (neu eu hysbysebu'n allanol os nad yw hyn yn bosibl) ac aelodau o bob cyngor cyfansoddol.
Efallai na fydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn arfer ei swyddogaethau os yw'r aelodaeth yn mynd yn groes i'r gofynion hyn.

**Canllawiau Gweinidogion Cymru**

Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 85(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**Cworwm**

Y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un Aelod Lleyg yn bresennol.

------------------------------------

**Rheolau Sefydlog**

2.22 Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.22.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)
2.22.2 Nodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 4 o'r Adran 5 hon a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd o fewn gofynion statudol.
2.22.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 9 Aelod, gyda 6 ohonynt yn aelodau etholedig a dynnir o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio pob un o'r 6 Chyngor Cyfansoddol ac a enwebir ganddynt a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg..

Cyfarfodydd
2.23 Mae'n ofynnol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith bob blwyddyn galendr o leiaf.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf SPPP) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd), fel corff cyhoeddus, gynhyrchu adroddiad blynyddol i dystiolaethu sut maent wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol er dibenion gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru, fel rhan o'r ddyletswydd llesiant yn adran 3(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SCP).

3.2 Mae adran 18 Deddf SPPP yn darparu bod adroddiadau partneriaeth gymdeithasol yn bodloni'r gofynion a ganlyn:

i. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

ii. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill o'i staff neu gynnwys datganiad yn esbonio pam na chytunwyd arno.

iii. Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

3.3 Nid yw'r Ddeddf SPPP yn darparu templed ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r awdurdod lletya - Cyngor Gwynedd - yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer 2024/25.

## 4. CEFNDIR

4.1. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf SPPP) yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i osod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Ar **1 Ebrill 2024** daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru. Mae'r Ddyletswydd wedi'i nodi yn adrannau 15, 16 a 18 Deddf SPPP. Mae'n ategu dyletswyddau llesiant presennol y mae rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn ddarostyngedig iddynt dan Ran 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG).

4.2 Mae Deddf SPPP 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i CBC y Gogledd, wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, i'r graddau y mae'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig, wrth osod eu hamcanion llesiant (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a osodwyd.

4.3 Mae adran 16(2) y Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i CBC y Gogledd gydymffurfio â nhw wrth 'geisio consensws neu gyfaddawdu'. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur yn cymryd rhan yn llawn ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn gosod ei amcanion llesiant, neu wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'n nodi: er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawdu, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

i. ymgynghori â nhw ar gam ffurfiannol o'r broses, a
ii. fel arall eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:

   a. ddarparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a
   b. darparu digon o amser i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.

## 5. EIN DULL GWEITHREDU

5.1. Wrth baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth a'r adroddiad blynyddol hwn, fe wnaethom fynychu cyflwyniad gan y tîm Partneriaeth Gymdeithasol mewn fforwm rhanbarthol CBC. Cynhaliwyd sesiwn unigol ar wahân i archwilio gofynion. Rydym hefyd wedi cwrdd â chydweithwyr o adrannau Cefnogi Busnes ac Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd i gyd-fynd â'u hadroddiad fel awdurdod lletya ar y pryd.

5.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn ar gyfer 2024-25 wedi ystyried trefniadau CBC y Gogledd cyn trosglwyddo staff y Swyddfa Rheoli Portffolio cyn y trosglwyddiad TUPE, a recriwtio a chadw staff i gefnogi'r CBC drwy newid gweithredol trwy ymgysylltu a ffyrdd cydweithredol o weithio i gefnogi CBC y Gogledd ar ôl trosglwyddo ar 1 Ebrill 2025. Darparwyd yr holl gefnogaeth rheoli a staff gan yr awdurdod lletya, Cyngor Gwynedd drwy ei wasanaethau AD. Darparodd yr Arweinydd Gwasanaethau AD y cyswllt arweiniol yn uniongyrchol ag Undebau Llafur.

5.3 Felly, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu:

i. Aeddfedrwydd y sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
ii. Trosglwyddo staff cyn y broses TUPE.

iii. Y gofyniad i ddatblygu, ymgynghori ag Undebau Llafur a chyhoeddi amcanion Llesiant ac unrhyw benderfyniadau a nodwyd o natur strategol wrth gyflawni'r amcanion hynny.
iv. Y gofyniad i ddarparu hyfforddiant i Swyddogion.

5.4 Mae’r CBC bellach yn ymgysylltu â’r undebau llafur i sefydlu perthynas ffurfiol, a fydd yn cefnogi datblygiad fersiynau o’r adroddiad i’r dyfodol.

5.5 Yn dilyn trosglwyddo staff ac asedau i CBC y Gogledd ar 1 Ebrill 2025, bydd newid ar gyfer adrodd yn 2025-26 mewn perthynas â dyletswydd partneriaeth gymdeithasol y CBC a'r ddyletswydd caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol yng nghorff yr adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:

Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth
Gymdeithasol 2024-25

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro:**

“Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yma yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff wrth osod amcanion llesiant a phan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau i gyflawni'r amcanion hynny, a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu sut y mae'r ddyletswydd wedi'i chyflawni.

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli adroddiad cyntaf Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru o dan y Ddeddf. Mae'n adlewyrchu'r trefniadau sefydliadol ar waith yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys rôl yr awdurdod lletya wrth ddarparu cefnogaeth Adnoddau Dynol cyn trosglwyddo staff i'r CBC. Dylai Aelodau nodi bod yr adroddiad felly'n adlewyrchu sefyllfa sefydliadol sy'n datblygu a bod adroddiadau yn y dyfodol yn debygol o ddarparu tystiolaeth fanylach o gymhwyso'r ddyletswydd wrth i'r sefydliad aeddfedu.

Yn amodol ar gadarnhad o ymwneud â chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig yn unol â gofynion y Ddeddf, rwy'n fodlon bod yr adroddiad yn bodloni'r gofynion adrodd statudol.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

# Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol
# Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
# Ebrill 2024 – Mawrth 2025

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd yr adroddiad agoriadol hwn gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yn rhoi amlinelliad o'i asesiad cychwynnol o gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ystod y cam cyn trosglwyddo'r sefydliad, cyn 1 Ebrill 2025 ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

1.2 Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("Deddf SPPP"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn gofyn i gyrff cyhoeddus gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos sut maen nhw wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a sefydlwyd gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

1.3.1 Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn gofyn i CBC y Gogledd geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan maen nhw yn:

i. penderfynu ar eu hamcanion llesiant allweddol; ac
ii. yn gwneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

1.4 Mae Adran 16(2) y Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol yn ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â nhw wrth "geisio consensws neu gyfaddawd".

1.5 Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

i. ymgynghori â hwy yng nghyfnod ffurfiannol y broses, ac
ii. eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy:
    a. ddarparu gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn sy'n cael ei gynnig, a
    b. darparu amser digonol i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn sy'n cael ei gynnig ac ymateb yn briodol.

1.6 Yn ôl Adran 18 y Ddeddf:

i. Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
ii. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
iii. Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. Cefndir

2.1 Yn ogystal â'r dyletswyddau dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), mae gofynion mewn Deddfau eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau i ymgynghori â gwahanol garfannau (yn cynnwys staff).

2.2 Mae'n bwysig adrodd a chydnabod yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw staff yn cael eu cyflogi ar gytundeb parhaol yn uniongyrchol o fewn CBC y Gogledd. Cyn 1 Ebrill, gwnaed

cryn dipyn o baratoadau i sicrhau trosglwyddo staff y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), ynghyd â chyllid ac asedau. Cefnogwyd y gwaith gan yr Awdurdod lletya, Cyngor Gwynedd, a ddarparodd staff i ymgymryd â swyddogaethau statudol a chefn swyddfa allweddol, ac i gyflawni'r trosglwyddiad. Yn dilyn y trosglwyddiad, bydd y CBC yn recriwtio Prif Weithredwr ac yn dechrau gweithredu ei chynllun trawsnewid gan gynnwys recriwtio staff.

2.3 Mae'r PMO a CBC y Gogledd yn cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, lle mae Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur wedi'i sefydlu / yn weithredol ers sawl blwyddyn, i atgyfnerthu'r berthynas iach sydd wedi bodoli am ddegawd a mwy. Mae'r fforwm hwn yn cwrdd oddeutu bob 6 wythnos. Nod y grŵp hwn yw rhoi pwyslais ar gynnal perthnasau gweithio da rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, trafod yn rhagweithiol a datrys materion cyflogaeth cyfansoddol, ynghyd â thrafod ac ymdrin â datblygiad amodau gwaith lleol a mentrau cyflogaeth eraill. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor (Rheolwr Gwasanaeth AD, Rheolwr y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, swyddogion adnoddau dynol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (GMB, UNSAIN, ac Unite).

2.4 Yr undebau llafur cydnabyddedig gan ein awdurdod lletya, Cyngor Gwynedd, yw:

- GMB
- UNSAIN
- Unite

2.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Undebau Llafur hynny y cyfeirir atynt yn 2.4 drwy Wasanaethau AD Gwynedd fel rhan o'r broses drosglwyddo. Darparwyd cyfathrebu a chefnogaeth helaeth i'r staff hynny a oedd wedi'u dal o fewn TUPE, ac roedd yn cynnwys gwaith cydweithredol ar delerau ac amodau, buddion a datblygu polisi cyflog y Cyngor Cyfiawnder Cenedlaethol. Ar ôl y cyfnod pontio, mae CBC y Gogledd yn datblygu ei garfan staffio a'i bartneriaethau ynghyd â'i berthynas ag undebau llafur.

## 3. Sut y bu i ni gwrdd â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ac/neu gydymffurfio â hi

3.1 Hyd yma, nid yw CBC y Gogledd wedi cynhyrchu ei Amcanion Llesiant, a fydd yn ffurfio rhan o unrhyw gytundeb Cynllun Corfforaethol i'r dyfodol. Ar ôl y trosglwyddiad a gallu recriwtio adnoddau allweddol, bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Comisiynwyr a'n partneriaid.

3.2 Gwnaethom ddatblygu gwaith partneriaeth cadarnhaol i gefnogi trosglwyddiad llwyddiannus y PMO gan ein bod wedi gweithio â Rheolwr Gwasanaethau AD Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur.

3.3 Aethom ati'n weithredol i gymryd rhan (lle bo'r angen) yn y Grŵp Cyswllt corfforaethol rhwng Cyngor Gwynedd a'r undebau llafur, sy'n cyfarfod oddeutu bob chwe wythnos, i drafod materion cyflogaeth.

3.4 Drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol ar ôl trosglwyddo, bydd cynnwys ymgysylltiad â'r undebau llafur yn cael ei hwyluso gan y gwasanaethau AD.

3.5 Fe'i derbynnir y bydd ein dull o ymdrin ag anghenion y Bartneriaeth Gymdeithasol yn datblygu ymhellach, gan ei fod yn parhau i fod yn broses o ddysgu ac esblygu. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ein nod yw ymgorffori'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol ym mhopeth a wnawn. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn rhoi camau yn eu lle i gryfhau ein cyfraniad, yn cynnwys:

- Penodi Prif Weithredwr, fel y cyfeirir ato uchod, ynghyd â swyddi rheoli uwch a swyddogion allweddol i fodloni gofynion statudol.
- Codi ymwybyddiaeth o'r gofynion sy'n deillio o Ddeddf SPPP er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu ein dull o fodloni'r gofyniad.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i swyddogion drwy Dysgu@Cymru ynghylch y ddyletswydd, er mwyn hyrwyddo'r ymwybyddiaeth yma ledled y sefydliad.
- Sefydlu fforwm uniongyrchol rhwng CBC y Gogledd a'r cynrychiolwyr undebau llafur i hyrwyddo cydweithio ac ymdrin â heriau'r gweithlu yn effeithiol.
- Recriwtio capasiti adnoddau a'r gallu i ddatblygu Amcanion Llesiant i'w hystyried gan randdeiliaid allweddol.
- Ymgysylltu'n weithredol gyda staff a'r undebau yn y broses o ddatblygu'r Amcanion Llesiant.
- Ymwneud yn weithredol â staff a'r undebau yn y dyfodol yn y broses o ddrafftio adolygiad Cynllun Corfforaethol CBC y Gogledd, drwy rannu drafft â nhw a rhoi'r hawl iddynt gyflwyno argymhellion a sylwadau i'w hystyried gan CBC y Gogledd cyn eu mabwysiadu (dyddiad i'w gadarnhau).
- Ymgysylltu â sefydliadau sy'n gymheiriaid, cyrff sector cyhoeddus eraill a rhwydweithiau perthnasol i hybu dysgu a mynediad ac ymgorffori arferion gorau'r sector.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Mawrth, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid a Gwella |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) y Rhaglen<br>Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru Aelodau ar gynnydd ar ddiwedd y rhaglen bresennol ar gyfer 2025/26 a'r rhaglen ddiwygiedig barhaus ar gyfer 2026/27.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi cynnydd a heriau rhaglen 2025/26 ar gyfer blwyddyn 1 yn dilyn trosglwyddo.

2.2. Nodi'r rhaglen ar gyfer 2026/27.

2.3. Yn cyfarwyddo bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno wedi chwe mis cyntaf rhaglen 2026/27 yn amodol ar gadarnhad o ddyddiadau pwyllgor y Calendr Bwrdeistrefol yn cael eu cytuno yn y CBC ym mis Mehefin 2026.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. I gefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd corfforaethol, mae'n bwysig bod y CBC yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gyflawni'r rhaglen trawsnewid a gwelliant parhaus. Mae'r CBC yn parhau i weithredu ystod o gynhyrchion a phrosiectau, gan gyflwyno newid busnes sylweddol wrth i'r sefydliad ddatblygu ei fodel gweithredu i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygiad parhaus rhaglen amlflwyddyn sy'n cyd-fynd â gweledigaeth ac amcanion gofynnol y CBC.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae gan y CBC statws gweithredu llawn, sy'n golygu y gall weithredu fel endid corfforaethol, y gall gyflogi pobl, a bod ganddo'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn darparu'r prif fframwaith llywodraethu a fydd yn galluogi'r CBC i weithredu fel awdurdod cyhoeddus ar draws ei holl swyddogaethau.

4.2. Ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'i staff i'r CBC ar 1af Ebrill 2025 ac o dan frand mabwysiedig Uchelgais Gogledd Cymru (UGC), crëwyd rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys ystod sylweddol o brosiectau, cynhyrchion a gwelliant parhaus a gariwyd ymlaen ers y cyfnod cyn trosglwyddo, yn ogystal â gwaith cyflawni o'r newydd. Aethpwyd ag adroddiad i'r CBC ym mis Mehefin 2025 i amlinellu'r rhaglen, lle cydnabuwyd ei

bod yn uchelgeisiol, ond yn angenrheidiol i'w nodi cyn penodi'r Prif Weithredwr newydd, ac i barhau â momentwm y rhaglen gyflawni.

4.3. Penodwyd Prif Weithredwr newydd UGC ym mis Mehefin 2025 a bydd yn gweithredu fel yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) sy'n atebol am drawsnewidiad parhaus y rhaglen. Cytunwyd gan Fwrdd y Rhaglen i ail-frandio'r rhaglen o 'Gweithredu' i 'Trawsnewid a Gwella' i adlewyrchu'r cwmpas presennol a thebygol o ran cyflawni ar ôl trosglwyddo.

4.4 Darparwyd diweddariad i aelodau'r CBC ym mis Tachwedd 2025 gan y Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen yn amlinellu'r heriau ond hefyd yn cydnabod y cynnydd a wneid er yr heriau hyn.

4.4. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod newid nid yn unig yn gyson ond yn bwysig i UGC fel corff cyhoeddus rhanbarthol er mwyn bodloni canllawiau a deddfwriaeth statudol. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu'r gallu i reoli newid/gwelliant penodol lle bydd unrhyw ffocws ar brosesau ac arferion penodol. Bydd y rhaglen drawsnewid yn ei chyfanrwydd yn ailddiffinio'r sefydliad, sy'n gofyn am newid dyfnach ehangach, gan gynnwys ei ddiwylliant a'i weithrediadau, dros nifer o flynyddoedd gan ymateb i heriau amgylcheddol mewnol a macro nawr ac yn y dyfodol.

4.5. Mae rhaglenni yn sefydliadau dros dro a sefydlir i gyflawni canlyniadau, yn aml dros amryw o flynyddoedd, trwy ystod o brosiectau y cytunwyd arnynt sy'n darparu gallu newydd. Mae rhaglenni dros dro o'r natur hon yn aml yn gofyn am fodel hybrid o adnoddau i sicrhau llwyddiant. Mae'r ymrwymiad hwn i gyflawni newid cymhleth o fewn endid newydd yn aml yn her ac yn daith ddysgu ar gyfer capasiti adnoddau mewnol. Yn sgil hynny, dylid bod angen cymorth gan gyfuniad o gefnogaeth interim neu gefnogaeth ymgynghorol yn ystod gwahanol gamau yn ei gylch bywyd.

## 5. CYNNYDD RHAGLEN 2025/26 HYD YN HYN

5.1. Bydd rhaglen 2025/26 yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Bydd unrhyw beth na chafodd ei gwblhau yn symud i raglen 2026/27. Mae'r rhaglen wedi parhau i fod yn heriol, yn gymhleth ac yn ddibynnol ar adnoddau dynol gan UGC a Chyngor Gwynedd. Mae hyn hefyd yn cynnwys lefel o sicrwydd wrth ddechrau prosiectau mewn amgylchedd cymhleth wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal â gweithredu o fewn cyfyngiadau ariannol. Mae wedi bod yn heriol gwneud cynnydd sylweddol. Mae'r prif heriau ers adroddiad mis Tachwedd 2025 yn cynnwys:

i. Parhau i recriwtio adnoddau CBC mewn amodau heriol i'r farchnad, yn benodol caffael er enghraifft
ii. Mae cwblhau a chymeradwyo Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan y ddau barti yn parhau i fod yn fater i'w gytuno'n ffurfiol er bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac y cytunwyd ar gyllideb gan y CBC ym mis Ionawr 2026
iii. Mae gallu parhaus yr adnoddau i ganolbwyntio ar drawsnewid a gwella UGC yn ogystal â gweithgarwch gweithredol Busnes fel Arfer yn parhau'n her wrth i ni ddisgwyl am recriwtio pellach
iv. Mae arweinwyr ffrwd waith (swyddogaethol) yn bennaf yn rheolwyr prosiect 'annhechnegol'
v. Oedi wrth i arweinydd/arweinwyr ffrwd waith adael Cyngor Gwynedd.
vi. Mae cyfyngiadau cyllideb yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn dylanwadu ar flaenoriaethu unrhyw brosiectau o fewn y rhaglen.

vii. Mae ffactorau allanol yn effeithio ar newid sefydliadol, megis canfyddiadau prosbectws y CBC ac adolygiad llywodraethu.
viii. Cefnogaeth partneriaid i gwrdd â dyddiadau cau a symud prosiectau yn eu blaen.

5.3. Er gwaethaf yr heriau presennol a amlinellwyd, mae'r rhaglen wedi parhau i wneud cynnydd. Isod mae crynodeb o'r cyflawniadau sydd wedi dechrau, neu y disgwylir iddynt gael eu dechrau neu eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon:

i. Penodwyd Prif Weithredwr
ii. Penodwyd Swyddog Monitro y CBC dros dro
iii. Y broses o benodi Cyfarwyddwr Portffolio yn dod i ben
iv. Penodi adnoddau gweithredol
v. Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
vi. Datblygu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu
vii. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024/25
viii. Cyhoeddwyd Polisi Tâl 2025/26
ix. Gweithredu pensiwn wedi'i gwblhau
x. Derbyniwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru Blwyddyn 1 i ddatblygu capasiti a gallu ar gyfer UGC
xi. Lansiwyd gwefan UGC
xii. Datblygiad rhanbarthol ar fuddion staff yn dechrau
xiii. Dechrau datblygu polisi Adnoddau Dynol newydd UGC
xiv. Adolygu cyfansoddiadol parhaus
xv. Trefniadau prydles adeilad Sarn Mynach ar gyfer y CBC wrthi'n cael eu cwblhau
xvi. Cwblhawyd adnewyddiad contractau caffael
xvii. Cyhoeddwyd Siarter Archwilio Mewnol
xviii. Trosglwyddo cytundebau ariannu presennol y Cynllun Twf wrthi'n cael ei gwblhau
xix. Adolygiad Safonau'r Iaith Gymraeg wrthi'n cael ei gwblhau
xx. Cofrestr Buddiannau yn cael ei chwblhau i'w chyhoeddi
xxi. Contract ariannol - PS Tax wrthi'n cael ei gwblhau
xxii. Bancio - Cardiau corfforaethol wrthi'n cael eu cwblhau

## 6. CRYNODEB O RAGLEN 2026/27

6.1 Mae'r rhaglen wedi'i llunio ar ôl blaenoriaethu ac asesu amlygiad risg. Roedd egwyddorion blaenoriaethu a phenderfynu allweddol yn cynnwys:

i. Cydymffurfiaeth
ii. Cyllid
iii. Parodrwydd capasiti a gallu staff (gan gynnwys recriwtio)

6.2 Crynodeb o gyflawni 'blaenoriaeth' rhaglen newydd UGC ar gyfer 2026/27:

**Trefniadaeth a diwylliant**

i. Y Cyfarwyddwr Portffolio wedi'i benodi a'i gynefino i UGC
ii. Penodiadau Swyddog Monitro ac adnoddau cyfreithiol
iii. Penodiadau Swyddog Adran 151 ac adnoddau cyllid
iv. Adnodd tîm cyfathrebu a phenodiadau ymgynghori
v. Penodi Swyddogion Allweddol i gefnogi cyflawni'r rhaglenni trafnidiaeth a chynllun datblygu strategol (SDP)
vi. Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) wedi ei sefydlu'n ffurfiol gyda Chyngor Gwynedd

vii. Adnodd a gyllidir gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth y CBC a recriwtiwyd gan Gyngor Gwynedd

Strategaeth a Pholisi

i. Cyflawni Polisïau Corfforaethol
ii. Gweithredu Polisïau Corfforaethol
iii. Datblygu Cynllun Corfforaethol
iv. Datganiad o Weledigaeth
v. Datganiad Llesiant (yn cynnwys amcanion)
vi. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg
vii. Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025/26
viii. Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig
ix. Strategaeth a Phrotocol Cyfathrebu

Technoleg, Gwybodaeth a Data

i. System Rheoli Pwyllgorau
ii. Gwe-ddarlledu
iii. Amnewid system cofnodi amser UGC
iv. Amnewid system gaffael
v. Uwchraddio SharePoint (Rheoli Dogfennau)
vi. Defnydd o systemau newydd gan Gyngor Gwynedd – parodrwydd busnes UGC
vii. Datrysiad Rheoli Achos Cyfreithiol

Prosesau

i. Cynllun Cyfathrebu
ii. Cynnig rhanbarthol buddion staff
iii. Cynllun Parhad Busnes
iv. Monitro ac Arfarnu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Pobl a Sgiliau

i. Rheoli Perfformiad staff (arfarnu staff)

Llywodraethiant

ii. Adolygiad Llywodraethiant Llywodraeth Cymru - CBCau
iii. Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat
iv. Is-bwyllgor Safonau
v. Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu
vi. Cynllun Deisebau
vii. Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd
viii. Hunanasesiad Blynyddol (Rhan 6)
ix. Cynlluniau Archwilio (Mewnol/Allanol)
x. Archwilio Cymru - Cyfrifon/Perfformiad Sefydliadol
xi. Strategaeth a Chofrestr Rheoli Risg Corfforaethol

6.3 Yn ogystal â chyflawni blaenoriaethau ar gyfer 2026/27, mae rhestr 'wrth gefn' o gyflawniad pellach ar gael i'w hystyried pe bai'r egwyddorion blaenoriaethu yn galluogi'r cyflawniad hwn. Os na, byddai'n cael ei symud i 2027/28. Mae crynodeb o eitemau’r rhestr wrth gefn yn cynnwys:

i. Adolygiad cynllunio sefydliadol
ii. Prosbectws CBC Llywodraeth Cymru – effaith newid

iii. Cynllun Materion Cyhoeddus
iv. Achrediad Cyflogwr Gwaith Teg
v. Rheoli a Chadw Gwybodaeth
vi. Cyhoeddiadau ac uwchraddiadau TG
vii. Rheoli prosesau busnes
viii. Strategaeth a chynlluniau pobl
ix. Adolygiadau gwelliant parhaus pwyllgorau
x. Strategaeth Fuddsoddi
xi. Strategaeth Fasnachol

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Mae trawsnewid a gwella UGC fel yr amlinellir, yn rhaglen amlflwyddyn. Ar hyn o bryd mae'n cael ei chefnogi gan adnodd arbenigwr contract Swyddog Monitro a Rheoli Rhaglen allanol sy'n anelu at gefnogi canlyniadau sefydliadol. Bydd angen y gallu hwn nes bod asesiad cynllunio sefydliadol wedi ei gwblhau a'i gyllidebu ar ei gyfer ac y bydd uwch adnoddau technegol arbenigol wedi ei recriwtio y gall fwrw ymlaen i gyflawni heb y gefnogaeth arbenigol hon. Mae cyllidebau'r CBC a chyllid grant wedi'u nodi i gefnogi'r rhaglen, ond wrth i ddatblygiad pellach y prosiectau gychwyn neu wrth i ni ddod i ddeall newid sefydliadol pellach, efallai y bydd ceisiadau am gyllid pellach heb ei ymrwymo hyd yn hyn os oes angen gallu ychwanegol.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol hysbys yn yr adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb y wybodaeth ariannol a gynhwysir yn yr adroddiad. Fel y nodwyd ym mharagraff 7.1 uchod, mae'r capasiti sy'n ofynnol yn cael ei adolygu'n gyson oherwydd natur y prosiect trawsnewid.

Mae'r gyllideb gymeradwy ar gyfer 2026/27 wedi cynnwys adnoddau ychwanegol i ddarparu ar gyfer cyflawni'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn ymhellach. Os oes angen cyllid ychwanegol yn y maes hwn, yn y lle cyntaf byddwn yn chwilio am danwariant mewn penawdau cyllideb eraill ac yn argymell unrhyw weithgareddau i'r CBC yn ôl yr angen. Gan fod hwn yn brosiect aml-flwyddyn, bydd y gofynion yn cael eu

hystyried yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac yna yn y cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Eitem 9

---

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Mawrth, 2026

---

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cronfa Twf Lleol yng Nghymru – cynllunio ar gyfer blwyddyn drosiannol (2026/27) Gogledd Cymru |
| AWDUR: | Dylan Griffiths, Rheolwr, Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru (Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu Economaidd) Cyngor Gwynedd |

---

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn y Gogledd. Darperir cyllid SPF yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU i'r rhanbarth drwy Gyngor Gwynedd.

1.2. 2025/26 yw blwyddyn olaf y SPF. Bydd rhaglen newydd, sef y Gronfa Twf Lleol (LGF), yn weithredol o 1 Ebrill 2026 ymlaen, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyllido'r LGF am gyfnod o dair blynedd.

1.3. Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi cyllid LGF i Lywodraeth Cymru, sydd, yn ei dro, yn bwriadu trosglwyddo'r cyllid i'r rhanbarthau yng Nghymru.

1.4. Mae Llywodraeth Cymru am i'r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer SPF weithredu fel yr awdurdod lleol arweiniol ar gyfer LGF yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen yn 2026/27. Bydd y flwyddyn gyntaf hon yn gyfnod pontio i ddull a threfniadau newydd o 2027/28 ymlaen.

1.5. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai cyfrifoldeb dros LGF drosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen (2027/28 a 2028/29).

1.6. Bydd y CBC yn derbyn £200,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2026/27 i gynllunio a pharatoi ar gyfer ymgymryd â'r LGF o 2027/28 ymlaen.

1.7. O ystyried rôl y CBC fel y'i hamlinellir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r LGF, mae'r adroddiad hwn yn diweddaru Aelodau ar y gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyno'r gronfa yn ystod ei blwyddyn bontio yn 2026/27, ac yn argymell dirprwyo'r gwaith o fonitro parhaus y trefniadau pontio i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Awdurdodi Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i fonitro cyflwyno blwyddyn bontio'r Gronfa Twf Lleol (2026/27) ac i arwain y gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo'r Gronfa i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol o 2027/28 ymlaen.

2.2. Cymeradwyo'r bwriad i gynnal y dull gweithredu a'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru — gan gynnwys rôl Cyngor Gwynedd fel

awdurdod lleol arweiniol — ar gyfer blwyddyn bontio'r Gronfa Twf Lleol yn 2026/27, a chyflwyno cynllun i'r perwyl hwn i Lywodraeth Cymru.

2.3. Awdurdodi'r defnydd o'r cyllid a ddarperir i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Twf Lleol y tu hwnt i 2026/27, gan weithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i gynhyrchu cynigion y rhanbarth.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai cyfrifoldeb dros y LGF gael ei drosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) ar gyfer ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen (2027/28 a 2028/29).

3.2. Mae defnyddio Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC i arwain y gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo'r Gronfa i'r CBC o 2027/28 ymlaen yn unol â chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor wrth arfer swyddogaeth lles economaidd y CBC.

3.3. Er y bydd y strwythurau SPF presennol yn cael eu defnyddio i weinyddu'r LGF yn 2026/27 — gyda'r dull yn unol â'r egwyddorion sefydledig, gan gynnwys pwyslais ar wneud penderfyniadau'n lleol — dylai'r CBC fod yn gysurus â'r cynnig, o gofio mai cyfnod pontio i drefniadau cyllido newydd drwy'r CBC o 2027/28 ymlaen yw'r flwyddyn gyntaf.

3.4. Dylid defnyddio'r £200,000 y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r CBC i baratoi ar gyfer ymgymryd â'r LGF o 2027/28 ymlaen ochr yn ochr â'r gwaith o gyflawni yn 2026/27. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid i gynhyrchu cynigion y rhanbarth a sicrhau pontio llyfn i'r trefniadau newydd.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae SPF wedi darparu £168.88 miliwn i gefnogi datblygiad economaidd a chymunedol yng Ngogledd Cymru ers 2022. Eleni (2025/26), dyrannir £42.42 miliwn i'r Gogledd drwy SPF.

4.2. 2025/26 yw blwyddyn olaf y SPF, er bod Llywodraeth y DU wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i brosiectau a ariennir i gwblhau eu gweithgarwch yn ystod hanner cyntaf 2026/27.

4.3. Y LGF fydd prif olynydd y SPF (Balchder Bro - *Pride in Place* yw'r elfen arall).

4.4. Dyrannir cyfanswm o £547 miliwn i Gymru drwy'r Gronfa dros dair blynedd rhwng 2026/27 a 2028/29. Bydd y cyllid yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

4.5. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y dull arfaethedig ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2025. (I gyd-fynd â chyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Economi, Ynni a Chynllunio ddatganiad llafar i'r Senedd ar 24 Chwefror 2026.)

4.6. Bydd y LGF yn weithredol o 1 Ebrill 2026.

4.7. Pwrpas y LGF yw cefnogi cenhadaeth dwf Llywodraeth y DU; nod arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa yw *cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd*.

4.8. Bydd y Gronfa'n cyflawni o dan tair thema a ddiffinnir gan Lywodraeth y DU:

- Cefnogaeth i fusnesau
- Cefnogaeth sgiliau a chyflogaeth ar gyfer twf
- Galluogi seilwaith twf lleol

4.9. Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn pwysleisio cydweithio a chydlynu ar lefel ranbarthol, er bod pwysigrwydd darparu'n lleol yn cael ei gydnabod. Maent hefyd yn caniatáu ar gyfer gweithgareddau neu ymyriadau cenedlaethol lle bo'n briodol.

4.10. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried blwyddyn gyntaf y Gronfa (2026/27) yn gyfnod pontio ac yn dymuno defnyddio'r strwythurau presennol ar gyfer cyflawni'r SPF (awdurdod lleol arweiniol yn gweithio gyda'r siroedd eraill yn y rhanbarth) i gyflawni'r LGF.

4.11. O 2027/28 ymlaen, maent yn bwriadu dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i'r CBauC yng Nghymru i gynllunio a rheoli portffolio o brosiectau lleol a rhanbarthol. Bydd hyn yn rhan o gynllun cyflawni rhanbarthol tair blynedd i wireddu gweledigaeth deng mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu £200,000 i bob CBC yn 2026/27 i gynllunio a pharatoi.

4.12. Dyraniad dangosol y Gronfa Twf Lleol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn 2026/27 yw £35.69 miliwn. Bydd 70% o'r cyllid ar ffurf cyfalaf.

4.13. O'i gymharu â'r SPF a ddarparwyd i Ogledd Cymru ar gyfer 2025/26, bydd y LGF ar gyfer 2026/27 yn golygu:

- gostyngiad o 15.9% (£6.72 miliwn) yn y cyllid;
- gostyngiad o £19.97 miliwn (65.1%) yn y cyllid refeniw sydd ar gael; a
- chynnydd o 112.6% (£13.24 miliwn) yn y gwariant cyfalaf.

4.14. Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, mae cynllun pontio sy'n nodi'r dull arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyntaf y LGF wedi'i ddatblygu gan awdurdodau lleol y rhanbarth mewn partneriaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru a thîm rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn y Gogledd.

4.15. Datblygwyd y Cynllun i adlewyrchu'r awydd a fynegwyd i gynnal, cyn belled â phosibl, y dulliau a'r ffordd o weithio sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y SPF, gyda phwyslais ar wneud penderfyniadau'n lleol ac ar berchnogaeth leol, gan adlewyrchu'r egwyddorion canlynol:

- dylai penderfyniadau ar ddefnyddio'r cyllid fod yn fater i siroedd lleol; a
- dylai siroedd lleol allu dewis a ydynt am gymryd rhan mewn cynlluniau sy'n gweithredu ar draws sawl sir.

4.16. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu dyraniadau LGF ar lefel sirol, ond o dan yr egwyddorion uchod cynigir model dosbarthu sy'n seiliedig ar y SPF (yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu cyllid 2026/27 rhwng y rhanbarthau):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Conwy | 19.4% | Gwynedd | 19.3% |
| Sir Ddinbych | 20.3% | Ynys Môn | 12.7% |
| Sir y Fflint | 10.4% | Wrecsam | 17.9% |

4.17. Bydd angen sefydlu cytundeb cyfreithiol newydd rhwng Cyngor Gwynedd ac awdurdodau lleol y rhanbarth. Bydd y cytundeb yn seiliedig ar y ddogfen bresennol, wedi'i haddasu i adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, bydd angen cynnal strwythurau llywodraethu priodol a thimau/cyllidebau addas ar y lefel ranbarthol, ac o fewn pob sir i reoli a monitro'r rhaglen (mae cyfran o ddyraniad y LGF ar gael i'r diben hwn).

4.18. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd Bwrdd Cydweithio o uwch swyddogion y chwe sir ynghyd â chynrychiolaeth gan Ambition North Wales a Llywodraeth Cymru yn goruchwylio cyflwyno'r LGF yn y rhanbarth. Bydd y Bwrdd yn parhau i gael cefnogaeth gan Grŵp Cydlynu o reolwyr ym mhob sir sy'n gyfrifol am weithrediad y Gronfa o ddydd i ddydd.

4.19. Bydd ardaloedd lleol yn parhau i fonitro cynnydd cyflawni yn eu hardaloedd eu hunain, gyda'r gwaith hwn yn cael ei ategu gan adroddiadau rhanbarthol drwy'r Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Mae'r gostyngiad yn swm a chyfansoddiad y cyllid a ddarperir gan y LGF yn creu goblygiadau amlwg ar faint a natur yr ymyriadau y gellir eu cefnogi (yn yr un modd â'r newid yn amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa o gymharu â'r SPF).

5.2. Bydd effaith y newidiadau hyn yn cael eu teimlo fwyaf yn 2026/27; ac er na fydd y CBC yn gyfrifol am y cyllid yn y cyfnod hwn, bydd gostyngiad yn y gweithgarwch yn cyfrannu at les economaidd y rhanbarth.

5.3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r CBC ddod yn gyfrifol am y cyllid o 2027/28 ymlaen, a bydd angen archwilio goblygiadau hyn yn ystod y flwyddyn pontio.

5.4. Nid yw maint cyllid y LGF ar gyfer Gogledd Cymru yn ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen yn hysbys eto, ond os bydd y dull o ddyrannu rhwng rhanbarthau Cymru yn aros yn debyg i'r dyraniad ar gyfer 2026/27, gallai'r cyllid fod yn yr ystod o £70 i £80 miliwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r CBC yn cael eu rhagweld ar gyfer 2026/27. Bydd angen archwilio'r goblygiadau o 2027/28 ymlaen yn ystod y flwyddyn pontio.

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn disgrifio'r trefniadau trosiannol arfaethedig ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yn ystod 2026/27, lle bydd strwythurau cyflawni presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau i weithredu gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel awdurdod arweiniol.

Mae cyfranogiad arfaethedig yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i fonitro'r trawsnewidiad yn gyson â swyddogaeth lles economaidd y CBC a'r fframwaith llywodraethu presennol. Gan mai'r bwriad yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Gronfa i'r CBC o 2027/28, bydd yn

bwysig yn ystod y flwyddyn pontio sicrhau bod trefniadau llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd priodol wedi'u sefydlu'n glir. Yn amodol ar hyn, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol penodol yn codi o'r argymhellion yn yr adroddiad."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r penderfyniadau a geisiwyd yn adlewyrchu disgwyliadau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r Gronfa Twf Leol. Bydd y gostyngiad mewn cyllid o'i gymharu â'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, a'r newid sylweddol yn y gymhareb rhwng refeniw a chyllid cyfalaf, yn cael ei deimlo ar draws gogledd Cymru."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

20 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)<br>Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2026/27.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2026/27.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Cyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2. Mae'r strategaeth yma wedi ei selio bod y CBC yn fuddsoddwr a bydd yn benthyca'n fewnol rhwng cynlluniau os oes angen. Os bydd y CBC yn adnabod yr angen i fenthyca'n allanol yna byddwn yn paratoi strategaeth diwygiedig ar gyfer eich cymeradwyaeth.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn cyflwyno Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i baratoi yn unol â'r fframwaith proffesiynol a statudol perthnasol.

Mae cymeradwyo'r Strategaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn rhan o gyfrifoldebau llywodraethu a goruchwylio'r Pwyllgor mewn perthynas â rheolaeth ariannol. Nid oes unrhyw faterion cyfreithiol penodol yn codi o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27**

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r risgiau cysylltiol. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly bydd yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys y CBC yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r CBC gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyd- bwyllgor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyd-bwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r CBC gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau, newid yn lefel ei balans buddsoddi neu newid ym mhroffil cyfalaf y Cynllun Twf.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Disgwylir i'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar strategaeth rheoli trysorlys yr Cyngor ar gyfer 2026/27 gynnwys: dylanwad Cyllideb Hydref 2025 y llywodraeth, cyfraddau llog tymor byr is ochr yn ochr â chyfraddau tymor canolig a hirdymor uwch, twf economaidd arafach, ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynghylch yr economi fyd-eang, teimlad y farchnad stoc, a materion geopoliticaidd.

### 2.2 Rhagolygon cyfraddau llog

Ar hynh o bryd, mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y CBC, Arlingclose yn rhagweld y bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn parhau i leihau Cyfradd y Banc yn 2026, gan gyrraedd tua 3.25%. Mae'r rhagolwg hwn yn adlewyrchu

diwygiadau a wnaed yn dilyn Cyllideb yr Hydref ac asesiad o'r mesurau cyllidol a'u goblygiadau'r farchnad, ac yn dilyn cyfarfod Banc Lloegr MPC a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr.

## 3. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

**3.1** Bydd gan y CBC gronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn y gwariant. Roedd y balans ar 31ain Mawrth 2025 yn £55.4m a gellir gweld y lefelau a ddisgwylir ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y tabl isod.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | 31.3.25 Gwir £m | 31.3.26 Rhagolwg £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau Trysorlys** | **55.4** | **72.2** | **41.8** | **23.2** | **24.3** |

### 3.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y CBC wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyd- bwyllgor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y CBC yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

### 3.3 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y CBC i'w rheoli. Mae'r CBC yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

### 3.4 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyd- bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £3m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £3m | £6m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £3m | £15m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £5m | Diderfyn |

*Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

**3.5 Isafswm Statws Credyd**

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**3.6 Llywodraeth y DU**

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

## 3.7 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

## 3.8 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

## 3.9 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

## 3.10 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

### 3.11 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r CBC yn gallu parhau i weithredu.

### 3.12 Asesu risg a statws credyd

Mae'r CBC yn monitro'r graddfeydd credyd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

### 3.13 Agweddau ar enw da

Mae'r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

## 3.14 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y CBC, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 34.15 Cyfyngiadau buddsoddi

Yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £5 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

**Tabl 3: Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £15m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £15m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £5m fesul gwlad |

**3.16 Rheoli hylifedd**

Mae’r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu’r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Mae'r rhagolwg yn cael ei lunio ar y sail y bydd benthyca mewnol yn cael ei wneud rhwng cynlluniau os oes angen. Bydd y gyfradd llog benthyca mewnol a godir yn seiliedig ar yr incwm buddsoddi a gollwyd. Mae’r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y CBC.

Bydd y CBC yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.